Papur 7

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

26 Mai 2023

Annwyl Rebecca,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig**

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig ('y memorandwm') yn ei gyfarfod ar 24 Mai, ochr yn ochr â llythyr a gyhoeddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 18 Mai, sy'n codi cwestiynau pellach am ei gynnwys.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

Mae'r memorandwm yn datgan, mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen i'r Bil, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU" a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

Rydym yn ailadrodd y galwadau a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac yn gofyn am sicrwydd, os bydd y trafodaethau a gynhelir â Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau i'r Bil sy'n darparu pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, y bydd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael ei osod gerbron y Senedd. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i bwyllgorau'r Senedd graffu ar unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil,

ac yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid ddeall yn llawn a thrafod y goblygiadau ariannol, os o gwbl, a ddaw yn sgil dirprwyo pwerau o'r fath.

Yn ail, mae paragraff 39 o'r memorandwm yn nodi bod cymal 15(3)(d) o'r Bil "yn newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Fel y mae'r llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei wneud yn glir, dirprwywyd y pŵer hwn i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn debyg i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, rydym yn pryderu bod Bil y DU yn cael ei ddefnyddio i israddio gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun gwta ddwy flynedd yn ôl.

O ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar effaith lawn y rheoliadau hyn, yn ariannol ac fel arall, rydym yn ailadrodd y cais ichi ddarparu esboniad trylwyr ynghylch y rhesymau pam mae'r newidiadau a gyflwynir drwy gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Er mwyn llywio trafodaethau pellach gan y Pwyllgor ar y memorandwm cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 22 Mehefin, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Mehefin.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.